Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Cymharu Bywydau'r Cyfoethog a'r Tlawd

## Nodiadau Canllaw ar gyfer Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Ymchwilio i fywydau dau deulu gwahanol iawn sy'n byw yn Froncysyllte, ger Dyfrbont  a Chamlas Pontcysyllte.
- Cymharu bywydau teuluoedd tlawd a chyfoethog yn oes Fictoria
- Datblygu sgiliau archwilio, ymchwilio a chasglu ffeithiau gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau

### Adnoddau

- Ffeil Ffeithiau'r Teulu Graesser
- Ffeil Ffeithiau'r Teulu Davies
- Taflenni a thrawsgrifiadau Cyfrifiad 1881 ar gyfer y ddau deulu
- Tabl Cymhariaeth



### Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gweithgareddau

Bydd dysgwyr yn defnyddio ffynonellau sylfaenol a'r ffeiliau ffeithiau i gymharu teuluoedd cyfoethog a thlawd sy'n byw ac yn gweithio ger Dyfrbont a Chamlas Froncysyllte. Byddant yn ymchwilio i deulu Robert Graesser, diwydiannwr a oedd yn byw yn Neuadd Argoed, Froncysyllte, a'r teulu Davies a oedd yn gychwyr ar y gamlas.

**Deunyddiau Cyfrifiad**

Mae'r cyfrifiad yn arolwg sy'n digwydd bob 10 mlynedd yn y DU. Mae'n rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir o holl bobl ac aelwydydd y DU, gan helpu i adeiladu darlun manwl o gymdeithas yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cyfrifiad yn gofyn cwestiynau am pwy sydd ar bob aelwyd ar noson y cyfrifiad, eu hoed, eu gwaith, lle cawson nhw eu geni ac ati.

**Noder:** ar noson y cyfrifiad yn 1881 roedd John Davies i ffwrdd o'i gartref ar ei gwch ac felly mae o wedi'i gofnodi yn y cyfrifiad yn y lle yr oedd ei gwch camlas wedi'i hangori, tra bod ei wraig wedi'i chofnodi fel bod yn eu cartref yn y Fron. Roedd Franz Graesser hefyd i ffwrdd ar noson y cyfrifiad gan ei fod yn ddisgybl preswyl yn Ysgol Ramadeg Rhiwabon ac wedi'i gofnodi yn y cyfrifiad yn y fan honno. Mae'r tudalennau o gyfrifiad 1881 sy'n sôn am aelodau'r ddau deulu wedi eu cynnwys yma.

**Noder:** Mae samplau o dudalennau gwreiddiol y cyfrifiad wedi eu cynnwys yma ond efallai y bydd rhai yn cael trafferth eu dadansoddi felly mae trawsgrifiad wedi ei gynnwys hefyd.



### Syniadau am Weithgareddau Cychwynnol:

**Trafod:** Beth yw cyfrifiad? Beth all o ddweud wrthym ni? Beth all o ddim ei ddweud wrthym ni? Bydd y daflen 'Edrych ar newidiadau yn y boblogaeth' yn y bwndel dysgu 'Sut y mae'r ardal wedi newid dros amser' yn rhoi mwy o gefndir i chi.



### Rhagor o Syniadau am Weithgareddau:

**Ysgrifennu:** Llythyr neu gofnod mewn dyddiadur o safbwynt Mary Graesser a Sarah Williams neu Robert Graesser a John Davies. Beth fydden nhw wedi ei ddweud wrth ei gilydd? Sut mae eu bywydau'n wahanol?



### Briff ar Gyfer Dygwyr:

- Mae pob un o'r Ffeiliau Ffeithiau yn cynnwys ychydig o wybodaeth gefndir am y teuluoedd Davies a Graesser a rhai delweddau a darnau o gyfrifiad 1881.
- Darllenwch y Ffeiliau Ffeithiau a defnyddiwch daflen cyfrifiad 1881 i lenwi'r tabl ar gyfer pob teulu. Yna atebwch y cwestiynau yma a chymharwch fywydau'r ddau deulu.
- Beth allwch chi ei ddarganfod am y teulu cyn ac ar ôl 1881 gan ddefnyddio'r Ffeiliau Ffeithiau a'ch ymchwil chi eich hun?
- Beth mae eich tabl ffeithiau yn ei ddweud wrthych chi? Beth dydi o ddim yn ei dweud wrthych chi?
- Pa wahaniaethau allwch chi eu gweld rhwng y ddau deulu?
- Sut ydych chi'n meddwl y mae rôl merched wedi newid ers y 1800au?

# Ffeil Ffeithiau'r Teulu Graesser

## Gwybodaeth Cefndir:

Cafodd **Robert Graesser** ei eni yn Sacsoni, yr Almaen yn 1845. Hyfforddodd fel fferyllydd a symudodd i Ogledd Cymru fel dyn ifanc. Aeth ymlaen i chwarae rhan bwysig yn natblygiad diwydiannol yr ardal.

Yn 1867 sefydlodd waith cemegol yng Nghefn Mawr i echdynnu olew a chŵyr paraffin o'r siâl lleol (math o graig). Erbyn 1880 roedd y gwaith wedi newid i gynhyrchu col-tar ac asid carbolig – antiseptig a diheintydd a ddefnyddiwyd mewn sebon – a daeth y cwmni'n gynhyrchydd mwyaf y byd o'r cemegau hyn.

Yn 1870, yn 25 oed, priododd ei wraig Mary (merch rheolwr siop) ac yn 1871 roedd yn byw ar y Stryd Fawr yng Nghefn Mawr.

Daeth yn Ddinesydd Prydeinig yn 1874 ynghyd â'i 3 phlentyn. Roedd hyn yn caniatáu iddo fod yn berchennog ar ei eiddo ei hun ym Mhrydain. Prynodd Neuadd Argoed a'r tir o'i amgylch yn 1880 am swm o £3,750 fel y gallai fyw gyda'i deulu yn agos at ei waith cemegol.

**Gwaith yn mynd yn ei flaen yn Neuadd Argoed**



Gwnaeth lawer iawn o waith ailwampio yn Neuadd Argoed er mwyn darparu cartref cyfforddus ar gyfer ei deulu a oedd yn tyfu a'i weision a'i forwynion. Yng nghyfrifiad 1891 roedd 11 o bobl yn preswylio yno yn cynnwys tri mab, merch a nith. Roeddent i gyd wedi eu cofnodi fel 'ysgolor' ac roedd eu hathrawes yn byw yn y tŷ hefyd, ynghyd â'r gogyddes, morwyn tŷ a morwyn cegin. Aeth Robert Graesser ymlaen i adeiladu Argoed Lodge a Bwthyn Argoed ar gyfer aelodau eraill o'i staff, ei goestmon a'i arddwr mae'n debyg.





**Gorymdaith Angladdol Robert Graesser**

Pan fu farw yn 1911 roedd y strydoedd yn orlawn o bobl a oedd eisiau gwylio ei orymdaith angladdol gan ei fod yn ddyn uchel iawn ei barch yn yr ardal. Gadawodd dros £100,00 ar ei ôl, sydd gyfwerth â £13 miliwn yn 2021!

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Cyfrifiad 1881 Neuadd Argoed, y Teulu Graesser

Page 2] The undermentioned Houses are situate within the Boundaries of the

| ~~Civil Parish~~ [or Township] of | ~~City or Municipal Borough of~~ | ~~Municipal Ward of~~ | ~~Parliamentary Borough of~~ | ~~Town or Village or~~ Hamlet of | ~~Urban Sanitary District of~~ | Rural Sanitary District of | Ecclesiastical Parish or District of |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysyllte | | | | Froncysyllte | | Corwen | Llangollen |

| No. of Schedule | ROAD, STREET, &c., and No. or NAME of HOUSE | HOUSES In-habited | HOUSES Uninhabited (U.), or Building (B.) | NAME and Surname of each Person | RELATION to Head of Family | CONDITION as to Marriage | AGE last Birthday of Males | AGE last Birthday of Females | Rank, Profession, or OCCUPATION | WHERE BORN | If (1) Deaf-and-Dumb (2) Blind (3) Imbecile or Idiot (4) Lunatic |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Canal Basin | 1 | | Elias Roberts | Head | Mar. | 45 | | Boatman & Coal Dealer | Denbighshire Llangollen | |
| | | | | Jemima Do | Wife | Mar | | 40 | | Denbighshire Llangollen | |
| | | | | Jonah Do | Son | Unm. | 18 | | Coal Miner | Denbighshire Llangollen | |
| | | | | Gomer Do | Son | | 13 | | Scholar | Denbighshire Llangollen | |
| | | | | Morris Do | Son | | 12 | | Do | Denbighshire Llangollen | |
| | | | | Jonah Elias Do | Son | | 8 | | Do | Denbighshire Llangollen | |
| | | | | William Do | Son | | 7 | | Do | Denbighshire Llangollen | |
| | | | | Sarah A. Do | Daur. | | | 5 | Do | Denbighshire Llangollen | |
| 7 | Argoed Hall | 1 | | Robert Graesser | Head | Mar. | 36 | | Manufacturing Chemist | Prussia Saxony | |
| | | | | Mary E Do | Wife | Mar | | 33 | | London Chelsea | |
| | | | | Alice S. Do | Daur. | Unm. | | 9 | Scholar | Denbighshire Ruabon | |
| | | | | Ernest H. Do | Son | | 5 | | Do | Denbighshire Ruabon | |
| | | | | Edgar R. Do | Son | | 3 | | Do | Denbighshire Ruabon | |
| | | | | Albert F. Do | Son | | 1 | | | Denbighshire Ruabon | |
| | | | | Normand H. Do | Son | | 4 mo. | | | Denbighshire Ruabon | |
| | | | | Martha Watson | Mother in law | W | | 71 | No occupation | Cambridgeshire Wisbech | |
| | | | | Marie Graesser | Niece | Unm. | | 16 | No occupation | Prussia Gielenzig | |
| | | | | Sarah Roberts | Serv. | Unm. | | 25 | Governess | Denbighshire Ruabon | |
| | | | | Mather Griffith | Serv. | Unm. | | 21 | Cook | Denbighshire Cefn | |
| | | | | Mary Evans | Serv. | Unm. | | 20 | Housemaid | Denbighshire Cefn | |
| | | | | Mary Parker | Serv. | Unm. | | 15 | Nursemaid | Cheshire Crewe | |
| 8 | Argoed Farm | 1 | | Edward Williams | Head | Mar. | 52 | | Farmer (Without Farm) | Denbighshire Trevor | |
| | | | | Mary Williams | Wife | Mar. | | 42 | | Denbighshire Trevor | |
| | | | | Mary Williams | Daur. | Unmar | | 22 | Dressmaker | Denbighshire Trevor | |
| | | | | Mary Aubrey | Niece | Unm. | | 12 | Scholar | Denbighshire Trevor | |
| 3 | Total of Houses... | 3 | | | Total of Males and Females... | | 12 | 13 | | | |

NOTE.—*Draw the pen through such of the words of the headings as are inappropriate.*

# Cyfrifiad 1881 Neuadd Argoed, y Teulu Graesser

| Ffordd, stryd a rhif neu enw'r tŷ | Enw a chyfenw pob unigolyn | Perthynas â phen-naeth y teulu | Wedi priodi? | Oed a rhyw | | Rheng, Proffesiwn neu Alwedigaeth | Man eu Geni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwryw | Benyw | | |
| Neuadd Argoed | Robert Graesser | Pennaeth | Wedi priodi | 36 | | Fferyllydd Cynhy-rchu | Mosel, Sacsoni |
| | Mary E | Gwraig | Wedi priodi | | 33 | | Llundain, Chelsea |
| | Alice S | Merch | Di-briod | | 9 | Ysgolor | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Ernest H | Mab | | 5 | | Ysgolor | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Edgar R | Mab | | 3 | | Ysgolor | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Albert F | Mab | | 1 | | | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Normand H | Mab | | 4 mis | | | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Martha Wilson | Mam yng Nghyfraith | Gwraig weddw | | 71 | | Swydd Caergrawnt |
| | Maria Graesser | Nith | Di-briod | | 16 | Dim galwedigaeth | Prwsia |
| | Sarah Roberts | Morwyn | Di-briod | | 28 | Athrawes | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Marther Griffith | Morwyn | Di-briod | | 21 | Cogyddes | Sir Ddinbych, Cefn |
| | Mary Evans | Morwyn | Di-briod | | 20 | Morwyn Tŷ | Sir Ddinbych, Cefn |
| | Mary Parker | Morwyn | Di-briod | | 15 | Morwyn Plant | Swydd Gaer, Crewe |

# Cyfrifiad Rhiwabon 1881: Franz Graesser yn Ysgol Ramadeg Rhiwabon

| Ffordd, stryd a rhif neu enw'r tŷ | Enw a chyfenw pob unigolyn | Perthynas â phen-naeth y teulu | Wedi priodi? | Oed a rhyw | | Rheng, Proffesiwn neu Alwedigaeth | Man eu Geni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwryw | Benyw | | |
| Ysgol Ramadeg | Alfred L Taylor M.A | Pennaeth | Wedi priodi | 53 | | Head master | Sir Gaerhirfryn, Rochdale |
| | Annie Taylor | Gwraig | Wedi priodi | | 50 | | Surrey, Bermondsey |
| | Emily Taylor | Merch | Di-briod | | 21 | | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Alice G Taylor | Merch | Di-briod | | 19 | | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Lillian M Taylor | Merch | Di-briod | | 9 | | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Alfred B Taylor | Mab | Di-briod | 14 | | | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Guy L Taylor | Mab | Di-briod | 5 | | | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Joseph Deeley | Meistr Cynorthwyol | Di-briod | 30 | | Meistr Cynorthwyol | Swydd Stafford, Brierly Hill |
| | Edward L Hitch | Disgybl Preswyl | Di-briod | 15 | | Ysgolor | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Alfred H Hitch | Disgybl Preswyl | Di-briod | 13 | | Ysgolor | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Charles E H Poole | Disgybl Preswyl | Di-briod | 16 | | Ysgolor | Sir Gaernarfon, Caernarfon |
| | Hugh R A Poole | Disgybl Preswyl | Di-briod | 12 | | Ysgolor | Swydd Derby, Buxton |
| | Charles J W Heatley | Disgybl Preswyl | Di-briod | 11 | | Ysgolor | Sir Gaerhinfryn, Rainhill |
| | **Frank Graesser** | **Disgybl Preswyl** | **Di-briod** | **8** | | **Ysgolor** | **Sir Ddinbych, Rhiwabon** |
| | Elizabeth Stephens | Morwyn | Di-briod | | 18 | Morwyn Tŷ | Sir Ddinbych, Rhiwabon |
| | Catherine Jones | Morwyn | Di-briod | | 34 | Cogyddes | Llansantffraid, Sir Feirionnydd |
| | Charlotte Jones | Morwyn | Di-briod | | 20 | Morwyn Tŷ | Gwersyllt, Sir Ddinbych |

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Ffeil Ffeithiau'r Teulu Davies

## Gwybodaeth Cefndir:

Cychwyr oedd y teulu Davies, wedi eu lleoli yn Fron ond yn gweithio ar gychod camlas ar hyd camlas Ellesmere a thu hwnt.

Yn 1851 roedd gan William Davies a'i wraig Sara bum mab a dwy ferch rhwng 14 a 6 mis oed. Roedd y bachgen hynaf, Walter, 14 oed yn gweithio mewn gefail.

Roedd Sarah wedi marw cyn cyfrifiad 1861 gan fod William wedi'i gofnodi fel gŵr gweddw. Ar adeg cyfrifiad 1881 roedd William yn gweithio i ffwrdd ar ei gwch 'Durable' felly mae o wedi ei gofnodi yn y cyfrifiad yn Christleton, Sir Gaer gyda'i fab Ben, 13 oed a oedd yn gweithio gydag o.



© Canal & River Trust

**Cwch Cul yng Nghei Tramffordd Dyffryn Glyn, y Waun.**

Yng Nghyfrifiad 1871 roedd William i ffwrdd gyda dau o'i feibion – Walter a Ben – sydd hefyd yn gofalu am gychod eraill.



© Canal & River Trust

Daeth eu brawd ieuengaf John hefyd yn gychwr. Priododd John â Sarah (merch glöwr) yn Llangollen ym mis Mawrth 1868 pan oedd yn 24 oed. Erbyn 1871 roeddent yn byw yn Sion Cottages yn y Fron ac roedd ganddynt fab, William, 2 oed. Roedd Henry Jones, gwas 11 oed hefyd yn byw gyda nhw. Mae o wedi ei gofnodi yn y cyfrifiad fel gyrrwr cychod. (Gyrwyr oedd bechgyn a oedd yn arwain y ceffylau ar hyd y gamlas).



© Canal & River Trust



# Cyfrifiad 1881: Whixall, Swydd Amwythig - Teulu Davies

John a William Davies

The undermentioned Houses are situate within the Boundaries of the — 104 [Page 21

| Civil Parish [~~or Township~~] of | ~~City or Municipal Borough~~ of | ~~Municipal Ward~~ of | ~~Parliamentary Borough~~ of | ~~Town or~~ Village or Hamlet of | ~~Urban Sanitary District~~ of | Rural Sanitary District of | Ecclesiastical Parish or District of |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ~~Whixall~~ Prees | | | | Whixall | | Wem Union | St Marys Whixall |

| No. of Schedule | ROAD, STREET, &c., and No. or NAME of HOUSE | HOUSES In-habited | HOUSES Uninhabited (U.), or Building (B.) | NAME and Surname of each Person | RELATION to Head of Family | CONDITION as to Marriage | AGE last Birthday of Males | AGE last Birthday of Females | Rank, Profession, or OCCUPATION | WHERE BORN | If (1) Deaf-and-Dumb (2) Blind (3) Imbecile or Idiot (4) Lunatic |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 98 | Rye Hills | 1 | | Henry Evanson | Head | Mar | 43 | | Basket Maker | Salop. Prees | |
| | " | | | Hannah do | Wife | Mar | | 45 | do. Wife | do do | |
| | " | | | Philip do | Son | – | 11 | | Scholar | do do | |
| | " | | | Alfred do | do | – | 7 | | do | do do | |
| | " | | | Edward do | do | – | 4 | | do | do do | |
| 99 | Moss Rd | 1 | | Henry Slack | Head | Mar | 38 | | Turf Merchant | do do | |
| | " | | | Hannah do | Wife | Mar | | 40 | Do – Wife | do Wem | |
| | " | | | Elisabeth Brookes | Daur | – | | 11 | Scholar | do Prees | |
| | " | | | John Brookes | Bro in law | Unm | 45 | | Labourer | do Wem | |
| 100 | " | 1 | | John Boughey | Head | Mar | 69 | | Small Farmer | do. Market Drayton | |
| | " | | | Martha do | Wife | Mar | | 64 | do Wife | do Prees | |
| 101 | The Moss | 1 | | Sarah Gregory | Head | Widow | | 64 | Small Farmer | Cheshire. Bickerton | |
| | " | | | William do | Son | Unm | 22 | | Labourer | Salop. Prees | |
| 102 | Rye Hills | 1 | | John Parsons | Head | Mar | 60 | | Turf dealer | do – do | |
| | " | | | Sarah do | Wife | Mar | | 63 | do. Wife | do do | |
| | " | | | William do | Son | Unm | 20 | | do - Son | do do | |
| | " No 1. | | | Joseph do | do | do | 18 | | do do | do do | |
| 103 | Platt Lane (Boat) | | | Benjamin Davies | Head | Mar | 32 | | [illegible] Waterman Boatman | Vron | |
| | " Canal No 2 | | | Llywen do | Son | – | 10 | | do. Son | do | |
| 104 | " (Boat) | | | John Davies | Head | Mar | 35 | | Boatman | Vron | |
| | " | | | William S. do | Son | – | 12 | | do. Son | do | |
| | Total of Houses... | 5 | | Total of Males and Females... | | | 15 | 6 | | | |

NOTE.—*Draw the pen through such of the words of the headings as are inappropriate.*

Eng– Sheet C.

# Cyfrifiad 1881:
# Whixall, Swydd Amwythig - Teulu Davies

| Ffordd, stryd a rhif neu enw'r tŷ | Enw a chyfenw pob unigolyn | Perthynas â phennaeth y teulu | Wedi priodi? | Oed a rhyw | | Gwaith, crefft, cyflogaeth neu o fodd annibynnol | Man eu Geni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwryw | Benyw | | |
| Platt Lane (Cwch) | John Davies | Pennaeth | Wedi priodi | 35 | | Cychwr | Froncysyllte |
| | William Davies | Mab | Di-briod | 12 | | Cychwr (mab) | Froncysyllte |

# Cyfrifiad 1881:
# Froncysyllte - Teulu Davies

| Ffordd, stryd a rhif neu enw'r tŷ | Enw a chyfenw pob unigolyn | Perthynas â phennaeth y teulu | Wedi priodi? | Age and sex | | Gwaith, crefft, cyflogaeth neu o fodd annibynnol | Man eu Geni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwryw | Benyw | | |
| Ger Ysgol y Bwrdd (un o chwe eiddo) | Sarah Davies | Gwraig | Wedi priodi | | 33 | Gwraig Cychwr | Sir Ddinbych, Llangollen |
| | Catherine Davies | Merch | Di-briod | | 9 | Ysgolor | Sir Ddinbych, Llangollen |
| | Sarah A | Merch | | | 7 | Ysgolor | Sir Ddinbych, Llangollen |
| | John Davies | Mab | | 5 | | Ysgolor | Sir Ddinbych, Llangollen |
| | Joseph Davies | Mab | | 3 | | Ysgolor | Sir Ddinbych, Llangollen |

# Tabl Cymhariaeth Cyfrifiad 1881



| Cwestiwn | Teulu Graesser | | Y Teulu Davies | |
|---|---|---|---|---|
| | Neuadd Argoed | Ysgol Ramadeg | Bwthyn wrth ymyl y Gamlas | Cwch |
| Pwy oedd ar yr aelwyd yn 1881? Faint oedd eu hoed nhw? | | | | |
| Beth mae'r plant yn ei wneud yn 1881? | | | | |
| Beth ydi gwaith y tad? | | | | |
| Beth ydi gwaith y fam? | | | | |
| Oes yna unrhyw un arall yn byw yn yr eiddo yn 1881? Beth maen nhw'n ei wneud? | | | | |